# Cofnodion Cyfarfod 2/4/2026

**Presennol:** Cyng Dilys Evans, Jacqueline Allen, Huw Symonds, Eluned Jones, Ken Edwards, Rhys Evans, Sion McGuiness, Tomos Ffrancon, Haydn Roberts, Dilwyn Morgan (Aelod Lleol Cyngor Gwynedd) a Huw Antur (*Clerc*).

**Ymddiheuriadau:** Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cyng. Eifion Roberts, Moira Mai a Ceri Evans.

**Cyhoedd:** Alwyn Sion, ar ran Bwrdd Cyfarwyddwyr Theatr Derek Williams.

1. **Y Maer:** Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Maer, y Cyng Dilys Evans, gyda chroeso arbennig i Haydn Roberts i'w gyfarfod cyntaf o'r cyngor.

2. **Buddiant:** Ni ddatganwyd buddiant.

3. **Cofnodion:** Cadarnhawyd cywirdeb cofnodion cyfarfod 5/3/26.

   Gwahoddwyd Alwyn Sion i roi cyflwyniad ar weithgaredd Theatr Derek Williams. Rhoddodd Alwyn gefndir i sefyllfa ariannol y theatr dros y cyfnod diweddaraf, gan nodi fod yn sefyllfa wedi bod yn heriol iawn ers tro. Dywedodd fod Cynllun Busnes wedi ei baratoi, sy'n dangos bwlch ariannol o tua £14,000 y flwyddyn, bwlch sydd angen ei lenwi trwy gyfuniad o doriadau, grantiau, rhoddion a nawdd. Eglurodd fod dangos ffilmiau yn y theatr yn gostus iawn, ac wedi bod yn arwain at golledion i'r theatr. Eglurodd nad yw'r theatr mewn sefyllfa ar hyn o bryd i ddangos ffilmiau oherwydd y gost uchel yma. Apeliodd Alwyn am gefnogaeth y Cyngor Tref i weithgareddau cyffredinol y theatr, gan ddiolch am bob cefnogaeth dros y blynyddoedd. Diolchwyd i Alwyn am ei gyflwyniad, a gofynnwyd i Is Bwyllgor Cyllid y cyngor i ystyried y sefyllfa ymhellach.

4. **Materion y Clerc / Materion yn codi:**

   i. Seddi Gwag y Cyngor: Adroddwyd fod Ceri Dolben a Haydn Roberts wedi cytuno i ymuno â'r cyngor, a'u bod wedi cwblhau'r Datganiad Derbyn Swydd, y Cofrestr Buddiannau a'r Ffurflen Lwfansau Aelodau.
   ii. Cynllun Gwynedd Ni: Adroddwyd fod y bocsys blodau ar gyfer y Stryd Fawr wedi cyrraedd, a threfniadau yn eu lle i blannu blodau a phlanhigion etc. Cytunwyd i osod baneri Draig Goch ar Domen y Bala a ger Canolfan Hamdden Byw'n Iach Penllyn fel arfer.
   iii. Gwaith Celf y Bala: Adroddwyd fod Canolfan Byw'n Iach Penllyn wedi paratoi trwydded i osod y gwaith celf ar safle ger y ganolfan. Nodwyd hefyd fod

Angharad Pearce Jones, cerflunydd gwreiddiol y gwaith celf, wedi cyflwyno prisiad gostyngol am y gwaith o ail baentio ac ail osod y celf ger y ganolfan hamdden, ac fe gytunwyd i dderbyn ei chynnig gyda diolch. Cytunwyd i anfon y briff i osod y sylfaen goncrid i gontractwyr lleol i'w brisio, ac yna i wneud ceisiadau i Gronfa Gwynedd Ni / Cronfa Gymunedol y Parc Cenedlaethol i ariannu'r gwaith.

iv. Palmentydd y dref: Derbyniwyd cynnig gan Lywodraeth Cymru i gyfarfod ar Ebrill 15fed i drafod cyflwr cyffredinol palmentydd y dref. Cytunodd Dilys Evans, Rhys Evans, Eluned Jones a Ken Edwards i fynychu'r cyfarfod.

v. Tomen y Bala a Llochesi Bws: Cytunwyd i dderbyn prisiau Gwilym Prys Edwards i gynnal y Domen, ac Ali i lanhau llochesi bws y dref am dair blynedd hyd at 2028.

vi. Adroddwyd fod Cyngor Gwynedd wedi cytuno i osod arwyddion 20mya ar fynedfa'r Stad Ddiwydiannol, Ffordd y Gerddi a'r Parciau, hyn yn dilyn cais y Cyngor Tref.

vii. Cafwyd trafodaeth ar Gynllun Datblygu Lleol Parc Cenedlaethol Eryri, ac fe gytunwyd i gynnig sylwadau yn dilyn cyfarfod mis Mai o'r Cyngor Tref.

viii. Nodwyd y bydd y clerc yn mynychu sesiwn hyfforddiant ar gwblhau Adroddiad Blynyddol cynghorau ar Ebrill 8fed.

5. **Cyngor Gwynedd:** Cafwyd adroddiad gan y Cyng Dilwyn Morgan pryd y cyfeiriodd at:
   - Yr angen i ddiweddaru llinellau melyn mewn rhannau o'r dref, a'r angen i reoli parcio ger y fynedfa i'r Clwb Rygbi.
   - Fod ADRA yn delio hefo materion parcio yn Blaenddol.
   - Fod y gwaith ar goed y Stryd Fawr yn tynnu at y terfyn, a safon y gwaith i'w weld yn dda.
   - Fod Neuadd Buddug yn parhau heb ei gwerthu, a thrafodaethau ar y gweill gyda grŵp cymunedol i ganfod defnydd newydd i'r neuadd.
   - Fod Iwan Roberts, Swyddog Cefnogi Cymunedol yr Heddlu yn ymddeol, a bod angen cydnabod ei waith a sicrhau dilyniant i'r gwasanaeth pwysig yma.
   - Fod pryderon yn lleol am or yrru ger Ysgol Godre'r Berwyn, a bod yr heddlu yn ymwybodol o'r sefyllfa.
   - Fod rhai o feinciau'r Stryd fawr wedi eu paentio , a bod angen cydlynu symud rhai meinciau o ganolfan D H Hones.
   - Y byddai'n dda cael baneri ar siopau'r dref – hyn i'w drafod ymhellach hefo Grŵp Siopau'r dref.

6. **Is-bwyllgorau:**

**Is Bwyllgor Asedau:** Nodwyd fod y grŵp yn gweithio ar y prosiectau Gwynedd Ni a Gwaith Celf y Bala.

**Is Bwyllgor Tref Gyfeillgar:** Adroddwyd y bydd y cyfarfod i drafod palmentydd y dref yn allweddol i gyrraedd statws Tref Gyfeillgar i'r Bala.

**Is Bwyllgor Cyllid:** Nodwyd y bydd angen cyfarfod o'r Pwyllgor Cyllid unwaith y bydd cyfrifon drafft y cyngor am 2025/2026 wedi eu paratoi.
**Is bwyllgor Twristiaeth Gynaliadwy:** Adroddodd y Cyng Sion McGuinness ei fod yn trefnu cyfarfod i symud y gwaith yn ei flaen.

**Cynrychiolwyr ar fudiadau:**

**Cwmni Pum Plwy Penllyn:** Adroddwyd y bydd y cyfarfod nesaf o'r cwmni nos Lun Ebrill 20fed i drafod datblygiad gwahanol brosiectau'r cwmni.

7. **Materion Cynllunio**:
Nid oedd materion cynllunio i'w trafod.

*8.* **Materion Cyllid:**

- **i.** Ystyriwyd y sefyllfa ariannol ddiweddaraf, a nodwyd fod £1,098 yn y cyfri cyfredol, £27,402 yn y cyfri cadw a £742 yng Nghronfa'r Maer ddiwedd Mawrth.
- **ii.** Derbyniwyd diolchiadau am gyfraniadau ariannol y cyngor fis Mawrth.
- **iii.** Penderfynwyd peidio cyfrannu tuag at Eisteddfod Llangollen.
- **iv.** Cymeradwywyd taliadau am lanhau Llochesi Bws, cyflog y Clerc, anfonebau Cwmni Pum Plwy Penllyn am hysbysebion yn y Cyfnod, rhent ystafelloedd cyfarfod ac am argraffu taflenni Twristiaeth Gynaliadwy.
- v. Cymeradwywyd trosglwyddo £3,000 o'r cyfrif cynilo i'r cyfrif cyfredol, a £400 o'r cyfrif cyfredol i Gronfa'r Maer yn unol â chyllideb y cyngor am 2025/2026.
- vi. Derbyniwyd Hysbysiad o Archwiliad Ariannol am 2025/2026.

**9. Gohebiaeth:**

- i) Cyngor Gwynedd: Derbyniwyd rhybudd y bydd Heol Arenig yn cau dros dro ar gyfer gwaith hanfodol.
- ii) Cyngor Gwynedd: Derbyniwyd gwybodaeth am gyfarfod o Fforwm Adfywio y Bala a Phenllyn ar Ebrill 29ain. Cytunodd y Cyng Dilys Evans, Tomos Ffrancon, Jacquie Allen a Dilwyn Morgan i fynychu'r cyfarfod.
- iii) Cyngor Gwynedd: Derbyniwyd gwybodaeth am Raglen Waith Adran Briffyrdd y cyngor, sef atgyweirio, paentio a glanhau toiledau cyhoeddus y dref.
- iv) Un Llais Cymru: Derbyniwyd copi i faniffesto Un Llais Cymru ar gyfer etholiad Senedd Cymru 2026.
- v) Un Llais Cymru: Derbyniwyd gwybodaeth am Wobrau Cenedlaethol Un Llais Cymru am 2026.
- vi) Un Llais Cymru: Derbyniwyd copi o Raglen Hyfforddiant 2026.
- vii) Menter Môn: Derbyniwyd gwybodaeth am gyfle i gynnal WIFI cyhoeddus yn y dref, gyda meddalwedd fyddai'n rhoi gwybodaeth am symudiadau ymwelwyr â'r dref. Cytunwyd fod y gost yn rhy uchel i symud ymlaen gyda'r gwasanaeth.

viii) Eisteddfod Genedlaethol Cymru: Derbyniwyd gwybodaeth am Seremoni Cyhoeddi'r Eisteddfod yn Llanidloes ar Fai 9fed.

ix) Rheilffordd y Cambrian: Derbyniwyd llythyr yn tynnu sylw at y diffyg buddsoddiad yn Rheilffordd y Cambrian dros y blynyddoedd diwethaf.

x) Heddlu Gogledd Cymru: Derbyniwyd gwahoddiad i gyfarfod yn y Bala i drafod materion lleol yr heddlu. Cytunwyd i Dilys Evans, Rhys Evans a Jacquie Allen i gynrychioli'r cyngor, ac i gynnig Ebrill 23ain a 30ain fel dyddiadau posibl.

10. **Materion lleol y Cynghorwyr Tref:** Nid oedd materion ychwanegol i'w trafod, a bydd y cyfarfod nesaf Nos Iau 7 Mai 2026.